# Setlliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol

Gwybodaeth gefndir ar gyfer asesiadau o wariant safonol 2026-27

**GWYBODAETH GRYNO AR GYFER ASESIADAU O WARIANT SAFONOL 2026-27**

## Cyflwyniad

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhan o gasgliad o dablau a gwybodaeth (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel y 'Llyfr Gwyrdd') y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio yn gefndir i gyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol (SSAs) ar gyfer 2026-27. Mae'n gydymaith ystadegol i Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2026-27.

Mae'r casgliad hwn yn dangos SSAs awdurdodau unigol wedi'u dadansoddi'n gategorïau o wasanaeth. Mae'r dadansoddiad hwn at ddibenion cyfrifo cyfanswm yr SSA yn unig gan y gall awdurdodau lleol bennu eu blaenoriaethau gwario eu hunain. **Nid** yw'n fwriad, felly, i'r IBA ar gyfer gwasanaethau a ddangosir yn y cyhoeddiad hwn gael eu defnyddio wrth bennu gwariant wedi'i gyllidebu yr awdurdodau unigol ar wasanaethau penodol.

Mae'r mwyafrif o'r ffigurau wedi'u talgrynnu. Felly, efallai na fydd y symiau a'r cyfrifiadau a ddangosir bob amser yn cyfateb yn union â'r ffigurau yn y tablau. Mae'r cyfrifiadau yn y modelau SSA yn defnyddio data sydd heb ei dalgrynnu yn bennaf.

## Y Cefndir

Mae'r data a ddefnyddir i gyfrifo dosbarthiad o SSA ar draws y meysydd gwasanaeth yn cael ei gasglu o wahanol ffynonellau, yn bennaf yn flynyddol. Y prif eithriadau yw'r data anheddu a gwasgariad, sy'n seiliedig ar hyn o bryd ar gyfrifiadau 1991 a 2001. Mae data arall yn cael ei gasglu'n uniongyrchol oddi wrth yr awdurdodau, neu o ffynonellau swyddogol gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mewn nifer bach o achosion defnyddir yr amcangyfrif gwirioneddol, neu'r amcangyfrif gorau o wariant ar wasanaeth, lle mae'r gwariant wedi'i bennu ymlaen llaw ac nid yw'n uniongyrchol o dan reolaeth awdurdodau. Enghreifftiau o hyn yw Draenio a Pharciau Cenedlaethol.

Adolygwyd y fformiwlâu ar gyfer yr holl wasanaethau cyn Setliad 2001-02 yn dilyn argymhellion a wnaed gan adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe a Pion Economics. Ymgorfforwyd yr argymhellion yn y setliadau 2001-02 a'r setliadau dilynol wrth i'r dadansoddiadau angenrheidiol gael eu cwblhau, drwy fecanwaith yr Is-grŵp Dosbarthu (DSG).

Gweithgor technegol sy'n eistedd o dan Gyngor Partneriaeth Cymru yw'r DSG. Mae ei aelodau'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, swyddogion llywodraeth leol (a ddewiswyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)) ac arbenigwyr annibynnol. Bob blwyddyn, mae'r DSG yn dilyn cylch gwaith a rhaglen waith y cytunwyd arnynt sy'n edrych ar rai agweddau ar y Setliad yn ogystal â meysydd o ddiddordeb penodol, er enghraifft materion dosbarthu sy'n gysylltiedig â grantiau penodol sy'n cael eu hystyried i'w trosglwyddo i'r Setliad.

## CANLLAW CEFNDIR AR GYFER ASESIADAU O WARIANT SAFONOL

### Cyflwyniad

1. Bwriedir i Asesiadau o Wariant Safonol adlewyrchu amrywiadau yn yr angen i wario y gellid eu disgwyl pe byddai pob awdurdod yn ymateb mewn ffordd debyg i'r galw am wasanaethau yn eu hardal. Dyma'r mecanwaith ar gyfer dosbarthu Grant Cynnal Refeniw (RSG) i'r awdurdodau lleol a fyddai'n eu galluogi i godi'r un dreth gyngor am ddarparu gwasanaeth o safon debyg.

### Asesiad o Wariant Safonol (SSA)

2. Mae'r cyllid SSA cyffredinol blynyddol yn cael ei bennu fel a ganlyn:

SSA = RSG + NDR + CT - RR - SB

**RSG** (Grant Cynnal Refeniw) **–** grant gan y Llywodraeth ganolog yw hwn a bennir gan Weinidogion Cymru.

**NDR** (Ardrethi Annomestig) **-** mae Cymru yn gweithredu pwll Ardrethi Annomestig lle mae cyfanswm yr ardrethi yn cael eu cyfuno'n ganolog a'u dosrannu i'r Awdurdodau yn seiliedig ar gyfrannau o'r boblogaeth oedolion.

**CT** (Y Dreth Gyngor) – Ffigur tybiannol ar gyfer incwm y dreth gyngor, a bennir gan Lywodraeth Cymru.

**RR** (Dargadw Ardrethi) – cyfanswm y swm sydd i'w dalu i'r awdurdodau lleol mewn perthynas ag ardrethi a ddargedwir.

**SB** (Cyrff Penodedig) – cyfanswm y swm sydd i'w dalu i gyrff sy'n darparu gwasanaethau i'r awdurdodau lleol[1].

### Dyrannu SSA ar draws Awdurdodau Lleol

Pennu Cyfansymiau'r Sector

3. Rhennir SSA yn ddwy elfen:

- *SSA cyfredol* – y swm tybiannol sydd ar gael i'w wario ar wasanaethau refeniw cyfredol, e.e. costau addysgu
- *SSA anghyfredol* – y swm tybiannol sydd ar gael ar gyfer costau cyfalaf hirdymor.

[1] fel y'i pennir yn Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau'r Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003/706) (Cy. 85) a Rheoliadau'r Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/764) (Cy.73)).

4. Mae'r cyfanswm ar gyfer yr SSA anghyfredol yn cael ei gyfrifo ar lefel Cymru gyfan y tu allan i'r fformiwla SSA ac mae'n seiliedig ar y swm y mae'r awdurdodau wedi'i fenthyca yn y gorffennol ynghyd ag unrhyw ddyled newydd.

5. Mae'r cyfanswm ar gyfer yr SSA cyfredol yn cael ei gyfrifo drwy dynnu SSA anghyfredol o'r gwerth SSA cyffredinol. Mae'r SSA presennol wedyn yn cael ei rannu ar draws nifer o sectorau lefel uchel e.e. Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol Personol etc.

6. Mae rhai sectorau lefel uchel lle mae'r cyfanswm yn cael ei ragnodi, megis Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r Grant Amddifadedd. Gelwir y rhain yn *symiau gwirioneddol y sector* ac fe'u tynnir o'r SSA cyfredol cyn pennu'r cyfansymiau sector sy'n weddill.

7. Ar ôl eithrio *symiau gwirioneddol y sector*, mae'r SSA cyfredol sy'n weddill yn cael ei ddosbarthu ar draws y sectorau nad ydynt wedi'u rhagnodi yn seiliedig ar eu cyfran o'r gwariant a gynlluniwyd [gan ddefnyddio'r data **Cyfrif Refeniw (RA)** diweddaraf sydd ar gael a gasglwyd oddi wrth yr Awdurdodau Lleol].

Penderfynu ar Gyfansymiau Meysydd Gwasanaeth

8. Mae'r SSAs lefel sector heb eu rhagnodi wedi'u rhannu'n nifer o feysydd gwasanaeth cyfredol tybiannol (y cyfeirir atynt hefyd fel Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs)).

9. Mae gan rai o swyddogaethau'r awdurdodau lleol gyfansymiau wedi'u diffinio ac fe'u gelwir yn *symiau gwirioneddol gwasanaethau.* Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau megis Parciau Cenedlaethol a Draenio**,** yn ogystal â'r gwasanaethau hynny sydd wedi bodoli ers llai na dwy flynedd (ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y data Alldro Refeniw diweddaraf – gweler paragraff 10). Mae'r symiau gwasanaeth gwirioneddol hyn yn cael eu tynnu o'r SSA lefel sector perthnasol cyn i'r cyfansymiau gwasanaeth sy'n weddill gael eu cyfrifo.

10. Mae'r SSA gweddilliol ar gyfer pob sector yn cael ei ddosbarthu wedyn ar draws gweddill y gwasanaethau sy'n dod o dan y sector hwnnw (gweler Ffigur 1). Mae'r dosbarthiad hwn yn seiliedig ar gyfran pob gwasanaeth o wariant gwirioneddol [gan ddefnyddio'r data **Alldro Refeniw (RO)** diweddaraf a gasglwyd odi wrth yr Awdurdodau Lleol].

11. Mae'r dull sy'n seiliedig ar wasanaethau yn lleihau effaith penderfyniadau gwariant awdurdodau unigol ar ddosbarthiad SSA. Dim ond rhan o'r cyfanswm SSA terfynol yw pob gwasanaeth, ac, ar gyfer pob gwasanaeth, pennir elfen pob awdurdod lleol o safbwynt dangosydd cymharol o angen yn unig.

**Ffigur 1: Dadansoddiad o gyfanswm yr SSA a'r SSA presennol ar gyfer 2026-27**

Siart yn dangos torri i lawr SSA 2026-27 yn ôl Sector a Gwasanaeth



Dosbarthu SSAs lefel gwasanaeth ar draws yr awdurdodau lleol

12. Bydd y dull dosbarthu ar gyfer pob Gwasanaeth yn disgyn i un o'r categorïau canlynol:

- Fformiwla yn seiliedig ar ddangosyddion angen; neu
- ddosbarthiad yn seiliedig ar wariant gwirioneddol neu amcangyfrifon o wariant.

**Dosbarthu gan ddefnyddio fformiwla yn seiliedig ar ddangosyddion o angen**

13. Mae'r mwyafrif o wasanaethau yn cael eu dosbarthu ar sail fformiwla sy'n cynnwys dangosyddion o angen. Defnyddir dangosyddion o angen yn hytrach na mesurau uniongyrchol o ddefnyddio gwasanaeth fel nad yw'r awdurdodau yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar yr SSAs a thrwy hynny faint o grant y maent yn ei gael. Mae'r dangosyddion a ddefnyddir yn y fformiwla yn disgyn i dri chategori eang:

- *Seiliedig ar gleientiaid* – Y prif ffactor sy'n dylanwadu ar gost yw'r prif grŵp cleientiaid, e.e. poblogaeth, nifer y disgyblion neu hyd ffyrdd.
- *Amddifadedd* – Dangosyddion i adlewyrchu'r gost ychwanegol o ddarparu gwasanaethau i boblogaethau â lefelau uwch o amddifadedd, e.e. derbynwyr cymhorthdal incwm, pobl â salwch hirdymor.
- *Gwasgariad poblogaeth* – Dangosyddion i adlewyrchu'r gost ychwanegol o ddarparu gwasanaethau i boblogaethau mewn ardaloedd mwy prin eu poblogaeth. Datblygwyd mesurau gwasgariad poblogaeth yn benodol i'w defnyddio yn Setliad Llywodraeth Leol Cymru, yn seiliedig ar batrwm setliadau yng Nghymru.

14. Mae pwys penodol a bennir drwy ddadansoddiad atchweliad ystadegol yn cael ei neilltuo i bob dangosydd mewn fformiwla gwasanaeth. Mae pwysoliad pob dangosydd yn adlewyrchu ei gydberthyniad (effaith) ar wariant gwasanaeth. Bydd pwysau dangosyddion yn yr ystod o >0, <=100 ac yn adlewyrchu pa gyfran o'r SSA gwasanaeth y maent yn ei ddosbarthu.

15. Nid oes gan rai gwasanaethau eu fformiwla eu hunain ond maent yn cael eu dosbarthu gan ddefnyddio fformiwla gwasanaeth cysylltiedig. Mae hyn yn wir yn aml am wasanaeth newydd lle nad yw patrymau gwariant yn hysbys eto ac mae'r fformiwla ar gyfer y gwasanaeth mwyaf tebyg yn cael ei ddefnyddio. Fe'i defnyddir hefyd ar gyfer rhai swyddogaethau cyffredinol, megis gweinyddu, sy'n cael eu dosbarthu yn seiliedig ar wasanaethau perthnasol, e.e. mae gweinyddu addysg yn cael ei ddosbarthu yn seiliedig ar yr SSAs ar gyfer yr holl wasanaethau addysg.

**Dosbarthu gan ddefnyddio gwariant**

16. Mewn nifer bach o achosion, mae cyllid ar gyfer gwasanaeth yn cael ei ddosbarthu yn seiliedig ar y gwariant gwirioneddol ar gyfer gwasanaeth (neu'r amcangyfrif gorau sydd ar gael). Mae hyn yn wir lle mae'r gwariant wedi'i bennu ymlaen llaw a lle nad yw o fewn rheolaeth uniongyrchol awdurdod. Enghreifftiau o hyn yw draenio a pharciau cenedlaethol.

17. Mae Ffigur 2 yn dangos sut y cafodd SSA 2026-27 ei dosbarthu. Dosbarthwyd 6% yn seiliedig ar wariant gyda'r 94% sy'n weddill yn seiliedig ar ddangosyddion o angen (Cleientiaid, Amddifadedd, Gwasgariad poblogaeth).

18. Mae Ffigur 3 yn dangos y dosbarthiad SSA yn ôl math o ddangosydd ar gyfer SSA y pen pob awdurdod.

**Ffigur 2: Siart i ddangos y sail lefel uchel y dyrannwyd SSA 2026-27 arni.**



**Ffigur 3: SSA yr Awdurdod Lleol y pen wedi'i rannu'n gategorïau dyrannu, 2026-27**




## Data Gwaelodol

19. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn cynnwys tair taenlen sy'n cynnwys yr wybodaeth sylfaenol a ddefnyddir i bennu a dosbarthu SSA 2026-27 ar gyfer pob IBA gwasanaeth.

20. Mae'r daenlen '**Data Sylfaenol'** yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol y gellir ei defnyddio i bennu gwerthoedd SSA 2026-27 ar gyfer pob IBA gwasanaeth:

- Rhannau cyfansoddol o'r Asesiad o Wariant Safonol[2];
- data Cyfrif Refeniw 2025-26;
- rhestr o *symiau gwirioneddol y sector* 2026-27;
- data Alldro Refeniw 2024-25; a
- rhestr o *symiau gwirioneddol gwasanaeth* 2026-27.

21. Mae'r daenlen '**IBAs gwasanaeth'** yn dangos gwerth SSA ar gyfer pob IBA gwasanaeth ac yn rhestru'r dangosyddion perthnasol (a'r pwysau) a ddefnyddir i ddyrannu'r SSAs ar draws awdurdodau.

[2] Dangosir y rhain hefyd yn Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2026-27

22. Mae'r daenlen '**Dangosyddion'** yn cynnwys yr holl ddangosyddion a ddefnyddir i ddosbarthu IBAs Gwasanaeth ar draws yr awdurdodau, ynghyd â chyfran ganrannol gymharol pob awdurdod o bob dangosydd.

23. Gellir defnyddio'r wybodaeth yn y taenlenni hyn i bennu'r dosbarthiad o SSA ar gyfer pob IBA ac Awdurdod Lleol. Dangosir enghraifft o'r cyfrifiad hwn yn Atodiad A (gweler *enghraifft ymarferol*).

24. Mae elfen ariannu dyled SSA awdurdod yn cael ei modelu ar wahân. Cyflwynwyd y system benthyca darbodus yn 2004-05. Bydd dyled yr aed iddi o ganlyniad i fenthyciadau a gymeradwywyd gan y llywodraeth ar gyfer prosiectau cyfalaf a oedd ar waith ar 31 Mawrth 2004 yn cael ei dileu ar sail balans sy'n lleihau dros 25 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud asesiad o fenthyca newydd y mae'n barod i'w gefnogi ac yn cynnwys hyn yn y cyfrifiadau, ynghyd â dyled yr aed iddi eisoes o ganlyniad i fenthyciadau a gymeradwywyd gan y llywodraeth. Mae addasiadau hefyd ar gyfer grantiau a ddarperir gan y llywodraeth ganolog ar gyfer cyllid cyfalaf.

25. Cyfrifir cyfanswm SSA ar gyfer awdurdod fel y swm o SSA cyfredol a'r cydrannau SSA (ariannu dyled) anghyfredol. Cyllid Allanol Cyfun (AEF) yw'r elfen a ddyrennir i'r awdurdodau ac mae'n cynnwys RSG a NDR. Mae'r AEF ar gyfer pob awdurdod unigol yn cael ei gyfrifo drwy ddidynnu ei ffigur treth gyngor tybiannol (CT) o gyfanswm ei SSA. Ar gyfer 2026-27, mae CT yn hafal i *sylfaen drethu 26-27* yr awdurdod wedi'i lluosi â'r *"elfen dreth safonol"* (fel y'i nodir ym Mhennod 3 o Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2026-27).

26. Mae'r AEF ar gyfer pob awdurdod yn cael ei dosrannu wedyn yn elfennau RSG a NDR. Mae Pennod 4 o Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2026-27 yn manylu ar y dull o benderfynu faint o AEF awdurdod sy'n ymwneud â NDR. Y gwerth sy'n weddill yw'r ***RSG*** sy'n swm "cydbwyso" (ar ôl cyfrif am y symiau sydd ar gael o NDR a CT) sy'n galluogi awdurdod i wario yn ei SSA.

Cyllido Gwaelodol

27. Diben cyllido gwaelodol yw sicrhau nad yw awdurdod yn dioddef gostyngiad na ellir ei reoli (neu gynnydd bach na ellir ei reoli) mewn cyllid AEF o'i gymharu â gweddill yr awdurdodau.

28. Mae dau brif opsiwn ar gyfer y mecanwaith cyllido gwaelodol. Mae'r cyntaf yn ailddosbarthiadol - sy'n golygu bod y rhai sydd uwchben y terfyn isaf yn ariannu'r rhai o dano yn gyfrannol. Yr ail yw'r terfyn isaf wedi'i ariannu'n llawn lle mae cyllideb ychwanegol ar gael i ariannu cost terfyn isaf yn llawn.

29. Ar gyfer 2026-27, cyflwynwyd terfyn isaf wedi'i ariannu yn llawn o 2.3% adeg y Setliad Dros Dro. Cynhaliwyd y gwerthoedd hyn ar gyfer cyfrifo Setliad Terfynol 2026-27 (yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yn y blynyddoedd blaenorol).

**Pwyntiau cryno**

Mae'r canlynol yn sail i'r Setliad Llywodraeth Leol:

- Mae maint cyffredinol y setliad yn cael ei bennu gan gyfansymiau rheoli'r llywodraeth.
- Mae pwysoliadau cymharol y gwasanaethau tybiannol ar lefel Cymru yn cael eu pennu gan batrymau gwariant wedi'u cyllidebu a gwirioneddol ar lefel Cymru gyfan.
- Mae'r dosbarthiad o fewn gwasanaethau yn cael ei bennu, yn gyffredinol, gan ddangosyddion gwrthrychol o angen cymharol awdurdodau i wario.
- Mae'r Setliad heb ei neilltuo. Nid yw'r SSAs a'r gwasanaethau cydrannol **yn dargedau gwario ar gyfer gwasanaethau unigol ac ni fwriedir iddynt fod yn rhagnodol mewn unrhyw ffordd.** Dim ond ffordd o ddosbarthu grant ydynt.

***Enghraifft Ymarferol o ddosbarthu IBA Gwasanaeth £ ar draws awdurdodau***

*Enghraifft:*

Deilliad yr SSA ar gyfer yr IBA 'Addysgu mewn ysgolion Meithrin a Chynradd a gwasanaethau eraill'ar gyfer Ynys Môn.

Mae'r daenlen **'IBAs Gwasanaeth'** yn dangos bod yr IBA cyffredinol 2026-27 ar gyfer yr IBA '*Addysgu mewn ysgolion Meithrin a Chynradd a gwasanaethau eraill'* yn £1,486,250,000[3]. Mae'n dangos hefyd ddosbarthiad yr IBA hwn yn seiliedig ar:

| **Pwysoliad:** | | **Dangosydd:** |
|---|---|---|
| 0.815 | x | Disgyblion ysgol gynradd a disgyblion ysgol feithrin wedi'u modelu |
| 0.098 | x | Trothwy'r setliad 1,000 |
| 0.087 | x | Disgyblion ysgol gynradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim |

Mae'r daenlen '**Dangosyddion'** yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i chi am bob un o'r dangosyddion hyn:

| UADesc | Primary school pupils and modelled nursery school pupils | Primary school pupils and modelled nursery school pupils (% of Wales total) | Settlement threshold 1,000 | Settlement threshold 1,000 (% of Wales total) | Primary school pupils eligible for free school meals | Primary school pupils eligible for free school meals (% of Wales total) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Isle of Anglesey | 4984 | 2.03% | 50,353 | 4.83% | 1154 | 1.74% |
| Gwynedd | 8450 | 3.44% | 83,755 | 8.04% | 1774 | 2.68% |
| Conwy | 7842 | 3.19% | 44,876 | 4.31% | 2161 | 3.26% |
| Denbighshire | 8017 | 3.26% | 38,810 | 3.72% | 2257 | 3.41% |
| Flintshire | 11893 | 4.84% | 59,553 | 5.71% | 2954 | 4.46% |
| Wrexham | 11018 | 4.48% | 36,240 | 3.48% | 3027 | 4.57% |
| Powys | 9193 | 3.74% | 91,018 | 8.73% | 1682 | 2.54% |
| Ceredigion | 4637 | 1.89% | 52,260 | 5.01% | 1020 | 1.54% |
| Pembrokeshire | 9132 | 3.71% | 69,575 | 6.68% | 2013 | 3.04% |
| Carmarthenshire | 14162 | 5.76% | 109,168 | 10.48% | 3432 | 5.18% |
| Swansea | 19197 | 7.81% | 47,135 | 4.52% | 5707 | 8.62% |
| Neath Port Talbot | 10745 | 4.37% | 45,593 | 4.38% | 3546 | 5.36% |
| Bridgend | 11404 | 4.64% | 34,106 | 3.27% | 3241 | 4.89% |
| Vale of Glamorgan | 11576 | 4.71% | 33,798 | 3.24% | 2340 | 3.53% |
| Rhondda Cynon Taf | 19162 | 7.79% | 67,607 | 6.49% | 5697 | 8.60% |
| Merthyr Tydfil | 5207 | 2.12% | 11,392 | 1.09% | 1658 | 2.50% |
| Caerphilly | 14371 | 5.85% | 52,835 | 5.07% | 4232 | 6.39% |
| Blaenau Gwent | 5472 | 2.23% | 17,627 | 1.69% | 1754 | 2.65% |
| Torfaen | 7744 | 3.15% | 17,658 | 1.69% | 2491 | 3.76% |
| Monmouthshire | 6523 | 2.65% | 42,994 | 4.13% | 1121 | 1.69% |
| Newport | 15233 | 6.20% | 18,916 | 1.82% | 4117 | 6.22% |
| Cardiff | 29885 | 12.16% | 16,850 | 1.62% | 8833 | 13.34% |
| **Wales** | **245847** | **100.00%** | **1,042,119** | **100.00%** | **66211** | **100.00%** |

[3] Gellir cadarnhau'r ffigur hwn gan ddefnyddio'r wybodaeth a gynhwysir yn y daenlen 'data sylfaenol' – er bod gwahaniaethau mewn gwerthoedd o ganlyniad i dalgrynnu.

Cam 1:

Defnyddiwch y pwysoliadau perthnasol ar gyfer yr IBA hwn i benderfynu sut y bydd yr SSA o £1,486,250,000 yn cael ei ddosbarthu yn erbyn pob dangosydd (ar lefel Cymru):

| **Dangosydd** | **Canran yr SSA [pwysoliad*100]** | **IBA 'Addysgu mewn ysgolion Meithrin a Chynradd' (SSA £oedd)** |
|---|---|---|
| Disgyblion ysgol gynradd a disgyblion ysgol feithrin wedi'u modelu | 81.5% | 1,211,293,750 |
| Trothwy'r setliad 1,000 | 9.8% | 145,652,500 |
| Disgyblion ysgol gynradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | 8.7% | 129,303,750 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **1,486,250,000** |

Cam 2:

Pennwch y dyraniad cyllid '**IBA Addysgu mewn Ysgolion Meithrin a Chynradd** ar gyfer Ynys Môn, yn seiliedig ar ei chyfran o bob dangosydd:

| **Dangosydd** | **Cyfanswm SSA (£oedd)** | **Dangosydd Ynys Môn %** [4] | **Cyfran Ynys Môn o'r SSA ar gyfer yr IBA hwn (£oedd)** |
|---|---|---|---|
| Disgyblion ysgol gynradd a disgyblion ysgol feithrin wedi'u modelu | 1,211,293,750 | 2.03% | 24,556,281 |
| Trothwy'r setliad 1,000 | 145,652,500 | 4.83% | 7,037,623 |
| Disgyblion ysgol gynradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | 129,303,750 | 1.74% | 2,253,652 |
| **Cyfanswm** | **1,486,250,000** | **100%** | **33,847,555** |

*Gellir dilyn y dull hwn ar gyfer pob IBA ac Awdurdod Lleol.*

[4] Noder, er cywirdeb, fod y canrannau yn y 'Dangosyddion' yn cael eu cyfrifo i 14 dps.